**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF991NA

SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

24 Hydref 2018

Annwyl Llŷr.

Yn gynharach eleni, ysgrifennais i'r Pwyllgor Cyllid i roi gwybod iddo fy mod wedi gofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi bondiau ar gyfer gwariant buddsoddi cyfalaf.

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r pwyllgor bod y gorchymyn drafft wedi'i osod yn Nhŷ'r Cyffredin. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y gorchymyn yn dod i rym o 1 Rhagfyr 2018.

Fel yr wyf wedi dweud sawl gwaith wrth ymddangos gerbron y pwyllgor, pan fo'n fater o ddefnyddio cyfalaf i ariannu buddsoddiadau mewn seilwaith yng Nghymru, byddwn ni wastad yn defnyddio cyfalaf confensiynol i ddechrau ac yna'r ffynonellau benthyca hynny sy'n rhoi'r gwerth ariannol gorau i'r trethdalwyr, er mwyn lleihau'r goblygiadau ariannol i gyllideb Llywodraeth Cymru yn y tymor hir.

Rwy'n bwriadu parhau i fenthyca gan Drysorlys EM, drwy'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, tra bydd honno'n cynnig y ffynhonnell gyllido rataf sydd ar gael inni. Fodd bynnag bydd y gallu i gyhoeddi bondiau yn rhoi'r amrywiaeth lawn o bwerau benthyca i Lywodraeth Cymru at y dyfodol.

Byddaf yn parhau i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'n pwerau benthyca fel rhan o broses arferol y gyllideb.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er gwybodaeth.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.
Cabinet Secretary for Finance